

**Y CABINET**  
**24 EBRILL 2024**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid yn Ystafell Bwyllgor Delyn ac ar Zoom, ddydd Mercher, 24 Ebrill 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mared Eastwood, Dave Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Billy Mullin, a Christine Jones.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol – Pobl a Datblygiad Sefydliadol, Swyddog Gweithredol Strategol, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Gwasanaeth – Asedau Tai, Swyddog Prosiect, Uwch Reolwr – Plant a'r Gweithlu, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**

Y Cyngorwyr: Marion Bateman, Helen Brown, Steve Copple, Carol Ellis, Roz Mansell, Debbie Owen, Andrew Parkhurst a Linda Thew.

**154. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**155. PROSIECT ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**

Cyflwynodd y Cyngorydd Bithell yr adroddiad gan egluro bod gwasanaethau archifau Cyngorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych wedi bod yn cydweithio dros y blynyddoedd diwethaf dan Femorandwm o Ddealltwriaeth, i rannu sgiliau ac adnoddau i greu gwasanaeth archifau gwell a mwy cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth.

Arweiniodd hynny at lansio un gwasanaeth ar y cyd, Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, ym mis Ebrill 2020, yn gweithio dros 2 safle presennol – yr Hen Reithordy ym Mhenarlâg a Charchar Rhuthun.

Ym mis Hydref 2023, cymeradwyodd y Cabinet gynnig ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) i Gronfa Treftadaeth y Loteri, yn ceisio grant o £7,371,397 tuag at adeiladu canolfan archifau newydd yn yr Wyddgrug, yn gartref i'r gwasanaeth ar y cyd ac i gynnal rhaglen ymgysylltu. Cytunodd y ddau Gyngor hefyd i ddarparu cyfraniadau cyfatebol – £3,078,537 gan Gyngor Sir y Fflint a £2,052,358 gan Gyngor Sir Ddinbych.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod symud i un adeilad yn galluogi AGDdC i gyfuno a defnyddio eu hadnoddau'n well, yn gwarchod casgliadau archifau'r rhanbarth ac yn eu galluogi i gynnal cynllun gweithgarwch cyffrous a fyddai'n cyflwyno'r archifau i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol, gan wneud cyfraniad cadarnhaol iawn at les trigolion a'r hyn maent yn ei ddysgu.

Ar 28 Mawrth 2024, dywedodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri fod y cais am grant wedi bod yn llwyddiannus. Roeddent wedi cytuno i ddarparu grant at y cam datblygu a oedd yn talu am gamau RIBA 1–3 i ddechrau. Byddai Cronfa Treftadaeth y Loteri wedyn yn adolygu cyflwyniad y cam datblygu cyn rhyddhau grant cam Cyflawni RIBA 5–7.

Roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu Cytundeb Cydweithio a Phenawdau'r Telerau ar gyfer y Brydles, i reoli'r trefniadau ar y cyd rhwng y ddau Gyngor, er mwyn cyflawni'r prosiect ac er mwyn gweithredu'r gwasanaeth ar y cyd. Roedd y cytundebau hynny, a oedd yn cael eu datblygu gan dîm amlddisgyblaethol o swyddogion o'r ddau awdurdod, i gael eu cwblhau yn nes ymlaen y mis hwn a byddent yn disodli'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.

Roedd gweithgarwch y prosiect i ddechrau ganol Mai, a byddai penderfyniad dirprwyedig yn galluogi i drafodaethau am y contract gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri gael eu cynnal mewn da bryd, i gychwyn y prosiect ar amser ac osgoi costau ychwanegol oherwydd oedi ar y cychwyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn ystyried bod AGDdC wedi bod yn llwyddiannus â'r cais am grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri;
- (b) Derbyn y cynnig grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran AGDdC; a
- (c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Gweithredol ac Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd, i alluogi i Gyngor Sir y Fflint ffurfio Cytundeb Cydweithio sy'n darparu ar gyfer adeiladu'r cyfleuster newydd, a gweithredu Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, a Phenawdau'r Telerau ar gyfer Prydles y ganolfan archifau newydd yn yr Wyddgrug.

#### **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

#### **PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn rhinwedd paragraff(au) 14 o Adran 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

#### **156. RHAGLEN DREIGL BUDDSODDI CYFALAF A BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (LLC)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eastwood yr adroddiad gan egluro bod Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru'n mynnu bod pob Awdurdod Lleol yn cyflwyno eu Rhaglenni Amlinellu Strategol treigl i Lywodraeth Cymru (LIC) eu hystyried erbyn 31 Mawrth 2024.

Roedd y Rhaglen Amlinellu Strategol yn nodi amlinelliad lefel uchel o'r darpar brosiectau roedd Cyngor yn ystyried y gallai eu hariannu, ar y cyd â

Llywodraeth Cymru, a oedd yn bodloni'r meini prawf am gyllid a osodwyd gan LIC.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r prosiectau a oedd yng nghyflwyniad Cynllun Amlinellu Strategol y Cyngor i LIC. Roedd yn egluro'r egwyddorion a ddefnyddiwyd a'r rhagdybiaethau a wnaed i ddarparu rhaglen sy'n cael yr effaith leiaf bosib' ar gyllidebau refeniw'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo cyflwyniad y Rhaglen Amlinellu Strategol i Lywodraeth Cymru.

**157. GWAITH CYFALAF – CAFFAEL GWAITH AR Y GRAGEN ALLANOL DAN SATC AR ADEILADAU SY'N EIDDO'R CYNGOR (TOI, PWYNTIO, RENDRO, FFENESTRI A DRYSAU, AC ATI)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan yr Aelodau i benodi dau gontractwr; trwy Ddyfarniad Uniongyrchol drwy Fframwaith Procure Plus, i wneud gwaith ar gragen allanol gyfan tua 1,500 o adeiladau dros y pum mlynedd ariannol nesaf.

Roedd y gwaith yn parhau â'r ail ran o welliannau cyfalaf a oedd wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau bod cartrefi'r Cyngor a oedd yn cael eu rhentu'n parhau i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'r holl ofynion deddfwriaethol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cabinet ac Aelod Cabinet Tai a Chymunedau yn cymeradwyo'r Dyfarniad Uniongyrchol a oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad, i ymgymryd â'r gwaith ar gragen allanol gyfan yr adeiladau drwy'r fframwaith Procure Plus. Arweiniodd yr ymarfer tendr blaenorol at benodi'r rhai a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn llwyddiannus i gyflawni'r rhaglen flaenorol a nhw oedd y contractwyr a oedd wedi gwneud y gwaith.

**158. DEWISIADAU AR GYFER Y DYFODOL: GWASANAETHAU HAMDDEN, LLYFRGELLOEDD AC AMGUEDDFEYDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eastwood yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau gweithredu presennol a gwerthusiad o ddewisiadau i gyflawni yn y dyfodol ac yn gofyn cymeradwyaeth i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, wrth ymgynghori ag Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, i fwrw ymlaen â'r dewis(iadau) a ffefrir a'u gweithredu.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r wybodaeth gefndir a'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd, chwarae ac amgueddfeydd;

- (b) Gofyn i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant gynnull cyfarfod arbennig cyn gynted ag y bo modd i ystyried yr opsiynau a oedd yn yr adroddiad;
- (c) Bod adroddiad yn gwerthuso'r holl ddewisiadau'n dod yn ôl ger bron y Cabinet ar frys, gan gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a safbwyntiau Aura;
- (d) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i weithredu'r dewisiadau hyn wrth ymgynghori ag Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden ac Arweinydd y Cyngor; a
- (e) Bod rhagor o adroddiadau'n dod ger bron y Cabinet wrth i waith gael ei wneud i roi diweddariad ar y cynnydd, ac unrhyw gamau gweithredu penodol sydd eu hangen, a rhoi diweddariadau cyfrinachol ehangach i'r Aelodau hefyd.

**159. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.30am)

.....

**Y Cadeirydd**